






01633 483383 

www.ysgolgybraegcwmbran.co.uk 

@ygcwmbran.bsky.social 

Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans

Ffordd Henllys, St. Dials, Cwmbrân, Torfaen, NP44 4HB

22/06/26

LLYTHYR PWYSIG

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid

Cau'r Ysgol oherwydd Rhybudd Tywydd Poeth Eithafol

Mewn paratoad ar gyfer y rhybudd tywydd coch ar gyfer dydd Mercher a dydd Iau yma, rydym wedi cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr o adeiladau a thiroedd yr ysgol. Ers dydd Llun rydym wedi bod yn profi tymereddau uchel iawn ar y safle, ac mae disgwyl i'r rhagolygon gynyddu ymhellach. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael yn ofalus, gan gynnwys canllawiau Swyddfa'r Tywydd (Met Office), cyngor gan yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru, trafodaethau gyda phennaethiaid cynradd lleol, a chefnogaeth gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, rydym wedi gwneud penderfyniad gwybodus i **gau'r ysgol yn gyfan gwbl ar ddydd Mercher a dydd Iau yr wythnos hon.**

Cewch fanylion y trefniadau allweddol ar gyfer y cyfnod cau isod:

Rydym yn deall y bydd hi'n anodd i'r plant ganolbwyntio ar weithgareddau strwythuredig yn y tywydd hwn ond gofynnwn iddynt ganolbwyntio ar ddarllen, tasgau syml sy'n seiliedig ar chwarae gartref a bydd rhai tasgau ychwanegol wedi'u hychwanegu at yr adran Gwaith Cartref ar gyfer pob dosbarth mewn ffolder o'r enw 'Tywydd Eithafol - Extreme Weather'. Ceir dolen i'r gwaith cartref ar wefan yr ysgol.

Yn ystod cyfnodau o dywydd poeth eithafol, mae'r demtasiwn i oeri mewn dŵr agored yn uchel iawn. Gofynnwn yn daer i bob rhiant a gofalwr siarad â'u plant am beryglon difrifol nofio mewn llynnoedd, afonydd, cronfeydd dŵr a chwareli lleol. Gall sioc dŵr oer, cerrynt cudd, a pheryglon o dan y dŵr fod yn farwol, hyd yn oed i nofwyr cryf. Atgyfnerthwch y neges i gadw draw o'r ardaloedd hyn yn gyfan gwbl yn ystod y cyfnod poeth hwn. Yn ogystal, gellir dod o hyd i ganllawiau yma ar y ffordd orau o aros yn ddiogel mewn tymereddau eithafol: <https://www.gov.uk/government/publications/beat-the-heat-hot-weather-advice/beat-the-heat-staying-safe-in-hot-weather>

Diolch am eich dealltwriaeth, eich cydweithrediad, a'ch cefnogaeth wrth i ni addasu i'r amodau anarferol hyn er mwyn cadw ein cymuned yn ddiogel. Byddwn ar agor fel arfer ar ddydd Gwener ac rydym yn edrych ymlaen at weld yr holl ddisgyblion yn ôl yn yr ysgol.

Yn gywir,

C N Evans

C N Evans
Pennaeth